OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Talerddig, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Hydref 2024* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Talerddig, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 31 Hydref 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470 Trunk Road (Talerddig, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *22 October 2024* |
| *Coming into force* | *31 October 2024* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470 Trunk Road (Talerddig, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 31 October 2024.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A470 Caersws to Machynlleth trunk road that extends from the centre of Pont-dôl-goch river bridge, Talerddig to the centre of Pont Bell railway bridge, north of Talerddig, Powys;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470 Caersŵs i Fachynlleth sy'n ymestyn o ganol pont afon Pont-dôl-goch, Talerddig hyd at ganol pont reilffordd Pont Bell, i'r gogledd o Dalerddig, Powys.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Hydref 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 09:00 hours on 31 October 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibition

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

### Application

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 22 October 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government